

2. Prif Eitemau/Main Items

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
1	A240169	08-03-2024	Mr and Mrs I & A Evans	Erection of dwelling, agricultural shed and associated works on site of former/abandoned dwelling	Fronlwyd, Llangrannog, Llandysul, Ceredigion, SA44 6RR	Refuse
2	A240509	03-07-2024	Mr Peredur Evans	Newid defnydd o'r eiddo o fod yn swyddfa (cyfreithwyr) i fod yn annedd ney dy byw	Manarafon, Stryd Y Capel, Tregaron, Ceredigion, SY25 6HA	Refuse
3	A240672	10-09-2024	Mr Ian Jones (Rheidol Properties)	Erection of dwelling	41 Dolymeillion, Llanilar, SY23 4AN	Approve Subject to Conditions
4	A240772	22-10-2024	Mr Geraint Roberts (Barcud)	Full planning application for the proposed resurfacing and reconfiguration of existing car park together with residential development and associated works	Land At Central Car Park, New Quay, SA45 9QQ	Approve Subject to Conditions

2.1. A240169



Rhif y Cais	A240169
Derbyniwyd	08-03-2024
Y Bwriad	Codi annedd, sied amaethyddol a gwaith cysylltiedig ar safle annedd blaenorol / annedd y cefnwyd arni
Lleoliad Safle	Tir ger Fronlwyd / Pen-yr-Allt, Llangrannog, Llandysul, Ceredigion, SA44 6RR
Math o Gais	Caniatâd cynllunio amlinellol - Cedwir pob un o'r materion
Ymgeisydd	Mr a Mrs I & Evans, Fronlwyd, Llangrannog, Llandysul, Ceredigion, SA44 6RR
Asiant	Mr Robert Thomas (Pensaernïaeth Thomas Login), Swyddfa Arfyn, Ffostrasol, Llandysul, Ceredigion, SA44 4SY

Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae'r safle ym Mhen-yr-allt wedi'i leoli mewn lleoliad cefn gwlad agored tua 1.8km i'r de o anheddiad arfordirol Llangrannog a thua 5km i'r dwyrain o anheddiad mwy yn Aberporth. Mae Nant Hoffnant yn llifo i'r de o'r safle ac yna'n arwain yn uniongyrchol i'r môr ym Mhenbryn. Ceri mynediad i safle'r cais o bwynt mynediad presennol ar briffordd gyfagos y cyngor. Mae'r lôn sy'n arwain o briffordd y cyngor i'r safle hefyd â hawl tramwy cyhoeddus.

Mae'r safle ym Mhen-yr-allt yn ffurfio rhan o ddaliad mwy sy'n cynnwys 35 erw o dir amaethyddol.

Mae'r hen annedd a elwir yn Pen-yr-allt wedi'i leoli gerllaw cae/trac carreg sy'n rhedeg i gyfeiriad y De. Mae'r hen annedd o gyflwr adfail gyda dim ond rhannau o'r waliau cerrig yn weddill. Mae tystiolaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r cais yn awgrymu taw y tro diwethaf y meddiannwyd yr annedd oedd yn 1936.

Hanes Perthnasol y Safle

- **A211171** - Erection of dwelling, agricultural shed and associated works on site of former/abandoned dwelling. *Outline Planning Permission - All/Some Matters Reserved* Gwrthodwyd (2022-10-19)
- **A230729** - Erection of dwelling, agricultural shed and associated works on site of former/abandoned dwelling. *Outline Planning Permission - All/Some Matters Reserved* Gwrthodwyd (2023-10-11)

MANYLION Y DATBLYGIAD

Ceisir caniatâd cynllunio amlinellol gyda'r holl faterion wedi'u cadw ac eithrio mynediad ar gyfer annedd newydd, sied amaethyddol a gwaith cysylltiedig. Mae cynllun dangosol yn dangos fod yr annedd arfaethedig i'w lleoli ar safle annedd flaenorol / annedd y cefnwyd arni ym Mhen-yr-allt, Llangrannog ger y trac mynediad presennol. Dangosir bod y sied/gweithdy storio amaethyddol arfaethedig wedi'i lleoli i'r gogledd o'r annedd arfaethedig newydd.

Mae paramedrau graddfa a gyflwynwyd i gefnogi'r cynllun yn nodi y byddai'r annedd arfaethedig tua 10m o ddyfnder o 12m o led gyda garej ynghlwm yn mesur 9m wrth 6m. Mae'r paramedrau graddfa yn awgrymu uchder o tua 9m.

POLISI'AU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Mae'r polisi'au canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

- DM01 Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol
- DM05 Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM09 Dylunio a Symud
- DM10 Dylunio a Thirwedd
- DM11 Dylunio ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd
- DM12 Seilwaith Cyfleustodau
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Lleol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol
- DM19 Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol
- DM20 Diogelu Coed, Gwrychoedd a choetiroedd
- LU02 Gofynion sy'n ymwneud â phob Datblygiad Preswyl
- LU04 Diwallu Amrywiaeth o Anghenion Tai
- LU05 Sicrhau Cyflenwi Datblygiadau Tai
- LU06 Dwysedd Tai
- LU09 Ailddefnyddio Anheddau Blaenorol/y Cefnwyd Arnynt
- S01 Twf Cynaliadwy
- S04 Datblygiad mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill
- S05 Tai Forddiadwy
- Cymuned a'r Iaith Gymraeg CCA 2015
- ~~Mannau Agored CCA Ebrill 2014~~
- Ardaloedd Tirwedd Arbennig CCA Ebrill 2014

- Taflen Gymorth Y Gymuned a'r Gymraeg CCA 2015
- Safonau Parcio CCC CCA 2015
- Aseiad Trafnidiaeth CCA 2015
- Amgylchedd Adeiledig a Dylunio CCA 2015
- Cadwraeth Natur SPG 2015
- Tai Fforddiadwy CCA 2014
- Tafenni Cymorth Tai Fforddiadwy CCA 2014
- Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (rhifyn 12, Chwefror 2024)
- TAN12 Dylunio (2016)
- TAN2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)
- TAN20 Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017)
- TAN6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau gan ystyried effaith debygol gweithredu'r swyddogaethau hyn ar droseddau ac anhrefn yn ei ardal, ac i wneud popeth y gallu yn rhesymol i atal troseddau ac anhrefn. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol nac annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabled; aibennu rhyw; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gredo; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw dyledus i hybu cydraddoldeb yn cynnwys:

- Gwaredu neu leihau anfanteision y mae pobl yn eu dioddef yn sgil eu nodweddion gwarchoddedig;
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r anghenion yn wahanol i'r pobl eraill;
- Annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghyfartal o isel.

Rhodddwyd sylw dyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ynghylch y cais hwn. Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn peri goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchoddedig nac yn cael effaith arnynt sy'n fwy nag ar unrhyw berson arall.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

YMATEBION YMGYNGHORI

Cyngor Cymuned Penbryn – Ni wnaed sylw
Priffyrdd – Dim gwrthwynebiad A106
Draenio Tir – Dim gwrthwynebiad
Ecoleg – Dim gwrthwynebiad
Cyfoeth Naturiol Cymru – Dim gwrthwynebiad
Dŵr Cymru – Dim gwrthwynebiad
Hawl Tramwy Cyhoeddus – Dim gwrthwynebiad

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau trydydd parti mewn perthynas â'r annedd arfaethedig.

CASGLIAD

Mae adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi: "Os ystyrir y cynllun datblygu at bwrpas gwneud penderfyniad o dan Ddeddfau Cynllunio bydd yn rhaid gwneud y penderfyniad hwnnw yn unol â'r cynllun oni bai fod ystyriaeth materion yn cyfleu fel arall".

Egwyddorion Datblygu

Fel rhan o'r cais, cyflwynwyd dadl bod yr adfail sydd wedi'i leoli o fewn y safle datblygu yn annedd flaenorol / y cefnwyd arni, ac felly dylid ystyried y datblygiad arfaethedig yn unol â polisi cynllunio LU09 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion. Mae Polisi LU09 yn nodi 3 maen prawf polisi lle dylid ystyried ceisiadau sy'n gofyn am ganiatâd i adfer anheddau blaenorol/y cefnwyd arni. Mae'r meini prawf polisi hyn yn cael eu nodi isod:

1. Nid yw'r annedd wreiddiol:

Wedi ei dymchwel, nac wedi dirywio i'r fath gyflwr fel nad yw mwyach yn edrych fel annedd i raddau helaeth;

Nid oes modd ei hatgyweirio na'i hadfer. Lle nad yw'n ymarferol adnewyddu oherwydd bod yr adeilad yn gadarn yn strwythurol, rhaid darparu cyfiawnhad manwl i'w ailadeiladu.

Nid yw'n annedd dros dro nac yn annedd symudol;

2. Mae ffurf, swmp, maint, graddfa a dyluniad safon uchel yr annedd newydd yn gyfryw ag sy'n parchu rhinweddau'r adeilad gwreiddiol a chymeriad yr ardal o'i chwmpas. Dylai'r adeilad newydd barchu ôl troed yr adeilad gwreiddiol a dylai, lle mae dichon gwneud hynny, aildefnyddio'r defnyddiau gwreiddiol;

3. Na fyddai'r annedd newydd a'r gwaith sy'n gysylltiedig ag ef, gydag amodau, yn cael effaith niweidiol ar gymeriad y dirwedd nac ar y wlad agored.

Fel arall bernir mai cynigion am dai newydd yn y wlad agored sydd dan sylw a phenderfynir arnynt yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

O ran maen prawf 1(i) mae testun ategol polisi LU09 yn nodi y gall nodweddion a allai benderfynu a yw'r strwythur yn adnabyddadwy fel annedd gynnwys rhannau sylweddol o'r waliau allanol, yn arbennig y wal ffyrnt neu gefn; agoriad drysau a ffenestri; y to; y simnai.

Ar hyn o bryd wrth ystyried y strwythur sy'n weddill, gellir gweld amlinelliad yr annedd flaenorol, ac mae cyfran o'r wal gefn yn dal i sefyll. Mae'r wal hon yn cynnwys agoriad ffenestr cefn bychan, fodd bynnag nid oes unrhyw ran arall o'r strwythur yn dal i sefyll, heb do na simnai yn bresennol. O'r hyn sy'n weddill o'r adeilad nid yw'n bosibl sefydlu beth fyddai wedi ffurfio prif ddrychiad yr annedd. Felly ystyrir bod y cais yn gwrthdaro â maen prawf 1(i). O'r herwydd, nid yw'r cynigion sy'n cydymffurfio â meini prawf polisi eraill LU09 wedi cael eu hystyried ymhellach. Yn hytrach, dylai'r cais am gartref newydd yng nghefn gwlad agored gael ei benderfynu yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

Mae paragraff 1.18 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi fod: "deddfwriaeth yn sicrhau rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall i sicrhau bod materion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yn gytbwys ac integredig".

Mae PCC wedi'i ategu gan egwyddorion datblygu cynaliadwy ac mae'n unol ag agenda Llesiant Llywodraeth Cymru fel y nodir yn y Ddeddf berthnasol ac mae'n nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol arfer eu swyddogaethau cynllunio gyda'r nod o gyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy. Mae PCC yn cael ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (NCT). Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynhyrchu canllawiau ar Adeiladu Lleodd Gwell, 2020, mewn ymateb i sefyllfa Covid-19.

Prif amcan PCC yw sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu tuag at gyflawni datblygiadau cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaethau allweddol eraill.

Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol, sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040, a fabwysiadwyd yn 2021. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyflawni datgarboneiddio a gwytnwch hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau.

Yn unol â pholisïau cynllunio cenedlaethol a lleol, cyfeirir datblygiad preswyl at aneddiadau cynaliadwy a dylid ei gynnwys o fewn ffiniau aneddiadau presennol. Strategaeth y CDLI yw y bydd 51% o ddatblygiadau tai newydd ar draws y Sir yn digwydd yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol, 24% yn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig a 25% mewn aneddiadau a lleoliadau eraill (gan gynnwys aneddiadau cyswllt).

Mae'r safle wedi'i leoli y tu hwnt i unrhyw anheddiad neu grŵp o aneddiadau diffiniedig ac felly ystyrir ei fod wedi'i leoli o fewn 'lleoliad arall' at ddibenion y polisi cynllunio. Mae Polisi S04 y CDLI yn ceisio rheoli cynnydd mewn datblygiadau tai ychwanegol o fewn lleoliadau eraill yn unol â'r polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol sy'n cyfeirio datblygiadau at aneddiadau fwy cynaliadwy. Nodir Maen Prawf 2a o'r S04 isod.

2. Yn achos datblygu tai:

a. Caniateir datblygu tai cyffredinol yn yr 'Aneddiadau Cyswllt' yn unig. Mae'r holl 'Lleoliadau Eraill' yn amhriodol ar gyfer datblygu tai oni ellir cyflawnhau hynny oherwydd y byddai'n cyflawni angen clir fel a ganlyn:

i. angen heb ei ddiwallu am dai fforddiadwy yn yr ardal leol ac mae'n unol â Pholisi S05; neu

ii. angen am annedd ar gyfer menter wledig yn unol â Pholisi TAN 6.

Nid yw'r cais yn datblygu dadl y byddai'r cais yn darparu ar gyfer anghenion tai fforddiadwy a nodwyd, neu y byddai'n cyd-fynd â'r meini prawf polisi fel y nodir yn TAN6 mewn perthynas ag anheddau gwledig. O'r herwydd, nid ystyrir bod yr egwyddor o annedd ychwanegol/allosod yn y lleoliad hwn yn cynrychioli ffurf gynaliadwy o ddatblygu nac yn cael ei hystyried yn dderbyniol o ran y polisi cynllunio.

Cymeriad ac ymddangosiad gweledol

Mae Creu Lleodd yn thema allweddol ym Mholisi Cynllunio Cymru sy'n nodi: "Mae dylunio da yn hollbwysig i greu mannau cynaliadwy lle mae pobl eisïau byw, gweithio a chymdeithasu. Mae mwy i ddylunio na phensaernïaeth adeilad; mae'n golygu'r berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig a rhwng pobl a lleoedd hefyd. I gyflawni datblygu cynaliadwy, rhaid i ddylunio fynd y tu hwnt i estheteg a chynnwys yr agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar y datblygiad, gan gynnwys sut mae gofod yn cael ei ddefnyddio, sut mae adeiladau a lle'r cyhoedd yn cefnogi hyn yn ogystal â'r gwaith adeiladu a'r trefniadau gweithredu a rheoli, a'r berthynas rhwng y datblygiad a'i gyffiniau.

Er mwyn cyflawni hyn mae PPW yn mynd ymlaen i ddatgan "dylai nodweddion arbennig ardal fod yn ganolog i ddylunio datblygiad. Mae cynllun, ffurf, graddfa ac ymddangosiad gweledol datblygiad arfaethedig a'i berthynas â'i amgylchoedd yn ystyriaethau cynllunio pwysig". Mae TAN 12. Cynllunio, yn rhoi hyn ar waith ac yn pwysleisio pwysigrwydd dylunio wrth fynegi diwylliant Cymru, yn ogystal â phwysleisio'r rolau sydd gan adeiladau nodedig o ran sicrhau bod ardal yn bwrpasol.

DM06 yw polisi gwneud lle y CDLI ac mae'n nodi y dylai Datblygu gael ystyriaeth lawn, a chyfrannu'n gadarnhaol at gyd-destun ei leoliad a'i amgylchedd. Dylai'r datblygiad adlewyrchu dealltwriaeth glir o egwyddorion dylunio, y cyd-destun corfforol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol a dylai hyrwyddo dylunio arloesol wrth ystyried arbenigrwydd lleol a threftadaeth ddiwylliannol o ran ~~ffurf~~ dylunio a

deunydd. Dylai ceisiadau datblygu hefyd ategu'r safle a'i amgylchedd o ran cynllun, parchu golygfeydd i mewn ac allan o'r safle, gan gynhyrchu ffurf gydlynol mewn perthynas â graddfa, uchder a chyfran y ffurf adeiledig bresennol.

Mae'r CCA Dylunio ac Amgylchedd Adeiledig a fabwysiadwyd gan y cyngor yn gweithredu'r DM06 ac mae'n rhoi arweiniad ar y materion y mae angen eu hystyried wrth ddatblygu amrywiol adeiladau. Mae Adran 2 o'r CCA yn ystyried sut y dylai argymhellion ymateb o ran Cymeriad Ceredigion. Mae Ceredigion yn ffodus fod ganddo hanes cyfoethog, sy'n aml yn cael ei adlewyrchu yn nifer o'i adeiladau a'i leoedd. Er mwyn gwella ansawdd amgylchedd adeiledig Ceredigion, mae'n hanfodol bod datblygiad newydd yn seiliedig ar asesiad trylwyr o gymeriad lleol.

Mae'r CCA yn rhoi arweiniad ar yr elfennau perthnasol i'w hystyried wrth ddylunio argymhelliad sy'n ymateb i gymeriad lleol Ceredigion gyda phobl a chysylltedd gyda'r ddwy elfen bresennol o'r pedair prif elfen i'w hystyried.

Mae dyluniad yn fater a gedwir i'w ystyried yn y dyfodol lle byddai lluniadau llawn yn cael eu cyflwyno, er gwaethaf hyn, ystyrir y gellid ail-ddefnyddio'r annedd segur heb effeithio'n negyddol ar gymeriad ac amwynder gweledol yr ardal.

Effaith ar amwynder preswylwyr

Mae Maen 7 Polisi DM06 yn ceisio diogelu amwynder preswylwyr eiddo cyfagos rhag niwed sylweddol mewn perthynas â phreifatrwydd, sŵn a golygfeydd.

Ystyrir y gellir cyflawni'r datblygiad heb achosi unrhyw niwed sylweddol i amwynder preswylwyr, a bydd y dyluniad terfynol a'r cynllun yn cael eu cytuno ar gam materion a gadwyd yn ôl.

Effaith Ecolegol

Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Lleol yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a diogelu safleoedd gwarchoddedig pwysig.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi ym mharagraff 11: 6.4.15 "Y flaenoriaeth gyntaf i awdurdodau cynllunio yw osgoi difrod i fioamrywiaeth yn ei hystyr ehangaf. Os gallai fod yna effeithiau amgylcheddol andwyol, rhaid i awdurdodau cynllunio fod yn fodlon bod ystyriaeth lawn wedi'i rhoi i safleoedd amgen rhesymol".

Polisi Cynllunio Cymru 12: 6.4.39 "Rhaid i awdurdodau cynllunio warchod coed, perthi, grwpiau o goed ac ardaloedd o goetir lle mae iddynt werth ecolegol, lle maent yn cyfrannu at gymeriad neu amwynder ardal leol arbennig, neu lle maent yn cyflawni swyddogaeth fuddiol i'r seilwaith gwyrdd".....6.4.42: "Ni chaniateir cael gwared ar goed, coetir a pherthi yn barhaol oni bai bod budd cyhoeddus sylweddol a phenodol. Lle gwaredir coed a pherthi, yn unigol neu fel grŵp, fel rhan o gynllun arfaethedig..... bydd yn ofynnol i ddatblygwyr blannu coed a pherthi eraill fel mesur digolledu".

Mae Polisi Cynllunio Cymru 12: 6.4.35 yn nodi "Mae presenoldeb rhywogaeth sy'n cael ei gwarchod o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd neu'r DU neu o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ystyriaeth berthnasol pan fo awdurdod cynllunio lleol yn ystyried cynnig datblygu a fyddai, o'i dderbyn, yn debygol o darfu ar neu beri niwed i'r rhywogaeth neu ei chynefin ac i sicrhau bod amrywiaeth a phoblogaeth y rhywogaeth yn cael eu cynnal. Dylai awdurdodau cynllunio lleol gynghori unrhyw un sy'n cyflwyno cais cynllunio bod yn rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaethau statudol i warchod rhywogaethau sy'n effeithio ar y safle dan sylw a'r cyffiniau o bosibl. Er mwyn cael gwybodaeth i helpu i lywio'r penderfyniad cynllunio, efallai y bydd angen arolwg ecolegol i gadarnhau a oes rhywogaeth a warchodir yn bresennol ac asesiad o effaith debygol y datblygiad ar rywogaeth a warchodir er mwyn helpu'r broses rheoli datblygu."

Mae TAN 5: 6.3.7 yn nodi na ddylai ACLI roi caniatâd cynllunio onibai ei fod yn fodlon na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar unrhyw rywogaeth a warchodir gan Ewrop neu, yn ei farn ef, y byddai rhoi trwydded yn debygol o gael ei fodloni. Byddai peidio â gwneud hynny yn achosi perygl na fyddai datblygwr safle yn gallu gwneud defnydd ymarferol o'r caniatâd cynllunio a roddwyd iddynt.

Mae Polisi 9 Cymru'r Dyfodol 2040 yn ceisio sicrhau bod Cymru'n datblygu a chynnal rhwydweithiau seilwaith ecolegol a gwyrdd gwydn. Ym mhob achos, rhaid dangos camau tuag at sicrhau cynhaliach a gwella bioamrywiaeth (er mwyn darparu budd net), cydnerthedd ecosystemau ac asedau seilwaith gwyrdd fel rhan o argymhellion datblygu trwy ddulliau arloesol sy'n seiliedig ar gamau sy'n seiliedig ar natur ar gyfer cynllunio'r safle a dylunio'r amgylchedd adeiledig.

Mae DM14 a DM15 o'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a diogelu safleoedd gwarchoddedig pwysig. Ni chaniateir datblygu ar safleoedd, cynefinoedd neu lle ceir rhywogaethau a warchodir naill ai'n uniongyrchol, yn anuniongyrchol neu ar y cyd, oni ellir dangos bod y cynnig yn cyfrannu at amddiffyn, gwella neu reoli cadarnhaol o'r safle, cynefin neu rywogaethau, neu mewn amgylchiadau penodol eraill a nodir yn y polisi. Mae CCA y Cyngor ar fioamrywiaeth yn darparu canllawiau ar asesu effaith datblygiad ar safleoedd dynodedig neu rywogaethau a warchodir.

O dan adran 28G Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 mae gan y Cyngor ddyletswydd o ran rhoi caniatâd cynllunio sy'n debygol o effeithio ar y fflora, ffawna, neu nodweddion daearegol neu ffisiograffigol sydd o ddiddordeb arbennig SoDdGA o'u herwydd, i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo cadwraeth a gwella'r nodweddion hynny.

Mae Asesiad Ecolegol wedi'i gyflwyno i gefnogi'r cynllun sy'n nodi nad oes unrhyw rywogaethau gwarchoddedig yn defnyddio'r safle ar hyn o bryd. Nid yw Ecolegydd Cynllunio CCC yn cynnig unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig, fodd bynnag, nid yw CNC yn nodi unrhyw wrthwynebiad. Oherwydd graddfa gyfyngedig a natur y datblygiad arfaethedig, ystyrir y gellir gweithredu'r cynnig datblygu heb achosi unrhyw niwed mewn perthynas â safleoedd a rhywogaethau a warchodir.

Effaith ar y Ffordd Fawr

Ymgynghorwyd â'r Awdurdod Priffyrdd Lleol ar y cais ac nid yw'n cynnig gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig yn seiliedig ar amodau. Ar y cyfan, ystyrir na fydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol annerbiniol ar ddiogelwch a symudedd i'r priffyrdd, ac mae digon o gapasiti o fewn y rhwydwaith priffyrdd presennol i amsugno'r traffig a grêir o ganlyniad i'r datblygiad hwn.

Mae adran gwasanaethau technegol y Cyngor eu hunain wedi cyngori bod angen cymeradwyaeth SDCau ac yn rhoi manylion am sut i leihau'r risg o lifogydd dŵr wyneb. Felly, ystyrir y gellid rheoli'r gwaredu dŵr wyneb yn briodol drwy broses gymeradwyo'r SDCau, oherwydd hynny ni ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn cynyddu'r risg o lifogydd.

Argymhelliad

Argymhellir **gwrthod** y cais am y rhesymau canlynol:

O ystyried cyflwr adfeiliedig yr annedd sy'n ddarostyngedig i'r cais, mae'r cynnig yn gwrthdaro â maen prawf 1i Polisi LU09 o Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007 – 2022 (a fabwysiadwyd yn 2013). Felly, ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn cynrychioli tai newydd mewn 'lleoliadau eraill' yn groes i bolisïau cynllunio S01 ac S04 o Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 a fabwysiadwyd (mabwysiadwyd 2013).

Rhesymau dros alw i mewn gan LM Cyng Gwyn James

"Nid yw'n disgyn o fewn ardal ffosffad yr afon Teifi ac mae adfail hen annedd ar y safle."

Rhif y Cais / Application Reference	A240169
Derbyniwyd / Received	08-03-2024
Y Bwriad / Proposal	Erection of dwelling, agricultural shed and associated works on site of former/abandoned dwelling
Lleoliad Safle / Site Location	Land at Fronlwyd / Pen-yr-Allt, Llangrannog, Llandysul, Ceredigion, SA44 6RR
Math o Gais / Application Type	Outline Planning Permission - All/Some Matters Reserved
Ymgeisydd / Applicant	Mr and Mrs I & A Evans, Fronlwyd, Llangrannog, Llandysul, Ceredigion, SA44 6RR
Asiant / Agent	Mr Robert Thomas (Thomas Login Architecture), Swyddfa Arfyn, Ffostrasol, Llandysul, Ceredigion, SA44 4SY

THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The site at Pen-yr-allt is located in an open countryside location located approximately 1.8KM to the South of the coastal settlement of Llangrannog and approximately 5KM to the East of the larger settlement of Aberporth. The Nant Hoffnant runs to the South of the site before it leads directly into the sea at Penbryn.

The application site is served by an existing access point onto the adjoining council highway. The lane leading from the council highway to the site is also a Public Right of Way.

The site at Pen-yr-allt forms part of a larger holding which includes 35 acres of agricultural land.

The former dwelling known as Pen-yr-allt is located adjacent to the field/stone track running in a Southern direction. The former dwelling is in a state of ruin with only partial sections of the stone walls remaining. Evidence submitted in support of the application suggest the dwelling was last occupied in 1936.

Relevant Planning History

- **A211171** - Erection of dwelling, agricultural shed and associated works on site of former/abandoned dwelling. *Outline Planning Permission - All/Some Matters Reserved Refused (2022-10-19)*
- **A230729** - Erection of dwelling, agricultural shed and associated works on site of former/abandoned dwelling. *Outline Planning Permission - All/Some Matters Reserved Refused (2023-10-11)*

DETAILS OF DEVELOPMENT

Outline planning permission with all matters reserved except for access is sought for a new dwelling, agricultural shed and associated works. An indicative layout shows the proposed dwelling is to occupy the site of a former/abandoned dwelling at Pen-yr-allt, Llangrannog adjacent to the existing access track. The proposed agricultural storage shed/workshop is shown as being located to the north of the proposed replacement dwelling.

Scale parameters submitted in support of the scheme state the proposed dwelling would measure circa 10m deep by 12m wide with an attached garage measuring 9m by 6m. The scale parameters suggest a height of approximately 9m.

RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

- DM01 Managing the Impacts of Development on Communities and the Welsh Language
- DM03 Sustainable Travel
- DM04 Sustainable Travel Infrastructure as a Material Consideration
- DM05 Sustainable Development and Planning Gain
- DM06 High Quality Design and Placemaking
- DM09 Design and Movement
- DM10 Design and Landscaping
- DM11 Designing for Climate Change
- DM12 Utility Infrastructure
- DM13 Sustainable Drainage Systems
- DM14 Nature Conservation and Ecological Connectivity
- DM15 Local Biodiversity Conservation
- DM17 General Landscape
- DM19 Historic and Cultural Landscape
- DM20 Protection of Trees| Hedgerows and Woodlands
- LU02 Requirements Regarding All Residential Developments
- LU04 Meeting a Range of Housing Needs
- LU05 Securing the Delivery of Housing Development
- LU06 Housing Density
- LU09 The Re-use of Former/Abandoned Dwellings
- S01 Sustainable Growth
- S04 Development in Linked Settlements and Other Locations
- S05 Affordable Housing
- Community and the Welsh Language SPG 2015
- Open Space SPG April 2014

- Special Landscape Areas SPG April 2014
- Community and the Welsh Language SPG Help Sheet 2015
- CCC Parking Standards SPG 2015
- Transport Assessment SPG 2015
- Built Environment and Design SPG 2015
- Nature Conservation SPG 2015
- Affordable Housing SPG 2014
- Affordable Housing SPG Help Sheets 2014

- Future Wales: The National Plan 2040
- Planning Policy Wales (edition 12, February 2024)
- TAN12 Design (2016)
- TAN2 Planning and Affordable Housing (2006)
- TAN20 Planning and the Welsh Language (2017)
- TAN6 Planning for Sustainable Rural Communities (2010)

OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

CRIME AND DISORDER ACT 1998

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

EQUALITY ACT 2010

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

CONSULTATION RESPONSES

Cyngor Cymuned Penbryn Community Council – Did not comment

Highways – No Objection S106

Land Drainage – No Objection

Ecology – No objection

Natural Resources Wales – No Objection

Dwr Cymru Welsh Water – No Objection

Public Right of Way – No Objection

No third party representations have been received in respect of the proposed dwelling.

CONCLUSION

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".

Principle of Development

As part of the application an argument has been progressed that the ruin which is located within the development site constitutes a former/abandoned dwelling, and as such the proposed development should be considered against planning policy LU09 of the Ceredigion

Local Development Plan. Policy LU09 sets out 3 policy criteria in which applications seeking permission for the reinstatement of former/abandoned dwelling should be considered. These policy criteria are repeated below:

1. The original dwelling:

i. Has not been demolished, or fallen into such a state of disrepair so that it no longer has the substantial appearance of a dwelling;

ii. Is capable of renovation. Where renovation is not practicable because the building is structurally unsound, detailed justification must be provided for re-build.

iii. Is not a temporary or mobile dwelling;

2. The replacement dwelling is of a form, bulk, size, scale and high quality design that respects the qualities of the original building and the character of the surrounding area. The replacement building should respect the footprint of the original dwelling and should make re-use, where practicable, of the original materials;

3. The replacement dwelling and its associated works, subject to conditions, would not have a detrimental effect on the character of the landscape or on the open countryside.

Otherwise, proposals will be deemed to be for new housing in the open countryside and determined in accordance with national guidance.

In terms of criterion 1i the supporting text of policy LU09 states that features which may determine whether the structure is recognisable as a dwelling may include the retention of; substantial parts of external walls, especially a front or rear elevation; openings for doors or windows; roof; chimney stack.

At present when considering the remaining structure, the outline of the previous dwelling can be seen, and a proportion of the rear wall remains standing. This wall includes a small rear window opening, however no other part of the structure remains standing, with no roof or chimney stack present. From what remains of the building it is not possible to establish what would have formed the principal elevation of the dwelling. It is therefore considered that the proposal is in conflict with criterion 1i. As such the proposals compliance with the other policy criteria of LU09 have not been further considered. The proposal is instead considered to be for new housing in the open countryside and determined in accordance with national guidance.

Paragraph 1.18 of Planning Policy Wales (PPW) states that “Legislation secures a presumption in favour of sustainable development in accordance with the development plan unless material considerations indicate otherwise to ensure that social, economic, cultural and environmental issues are balanced and integrated.”

PPW is underpinned by the principles of sustainable development and is in line with the Welsh Government’s Well-being agenda as set out in the relevant Act and identifies that local planning authorities should exercise their planning functions with the objective of contributing to the achievement of sustainable development PPW is supplemented by a suite of Technical Advice Notes (TANs). The Welsh Government has also produced guidance on Building Better Places, 2020, in response to the Covid-19 situation.

The primary objective of PPW is to ensure that the planning system contributes towards the delivery of sustainable development and improves the social, economic, environmental and cultural well-being of Wales, as required by the Planning (Wales) Act 2015, the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 and other key legislation.

Future Wales – the National Plan 2040 is the national development framework, setting the direction for development in Wales to 2040, adopted in 2021. It is a development plan with a strategy for addressing key national priorities through the planning system, including sustaining and developing a vibrant economy, achieving decarbonisation and climate-resilience, developing strong ecosystems and improving the health and well-being of our communities.

In accordance with national and local planning policies residential development is directed towards sustainable settlements and should be contained within existing settlement boundaries. The Strategy of the LDP is that over the plan period 51% of new housing development across the County will occur in the Urban Service Centres, 24% in the Rural Service Centres and 25% in other settlements and locations (including linked settlements).

The site sits beyond any defined settlement or group of dwellings and as such is considered as being located within an ‘other location’ for planning policy purposes. Policy S04 of the LDP seeks to control the proliferation of additional housing development within other locations in accordance with national planning policy and guidance which direct development to the most sustainable settlements. Criterion 2a of S04 is repeated below.

2. In the case of housing development:

a. General housing provision will only be permitted in the ‘Linked Settlements’. All ‘Other Locations’ are inappropriate for housing development unless justified on the basis that it meets a demonstrated:

i. unmet affordable housing need in the locality and accords with Policy S05; or

ii. need for a rural enterprise dwelling in line with TAN 6.

The application does not progress an argument that the proposal would cater for an identified affordable housing need or would accord with the policy criteria as set out within TAN6 in respect of rural dwellings. As such the principle of an additional/reinstatement dwelling in this location is not considered to represent a sustainable form of development or considered to be acceptable in planning policy terms.

Character and Visual appearance

Place Making is a key theme of Planning Policy Wales which states that “Good design is fundamental to creating sustainable places where people want to live, work and socialise. Design is not just about the architecture of a building but the relationship between elements of

the natural and built environment and between people and places. To achieve sustainable development, design must go beyond aesthetics and include the social, economic, environmental, cultural aspects of the development, including how space is used, how buildings and the public realm support this use, as well as its construction, operation, management, and its relationship with the surrounding area”.

In order to achieve this PPW goes on to state that “the special characteristics of an area should be central to the design of a development. The layout, form, scale and visual appearance of a proposed development and its relationship to its surroundings are important planning considerations”.

TAN 12 Design, gives effect to this and emphasises the importance of design in articulating the culture of Wales, as well as emphasising the roles landmark buildings have in ensuring the legibility of an area.

DM06 is the place making policy of the LDP and states that Development should have full regard, and positively contribute to the context of its location and surroundings. Development should reflect a clear understanding of design principles, the local physical, social, economic and environmental context and should promote innovative design whilst having regard to local distinctiveness and cultural heritage in terms of form, design and material. Development proposals should also complement the site and its surroundings in terms of layout, respecting views into and out of the site, producing a cohesive form in relation to the scale, height and proportion of existing built form.

The councils adopted Design and Built Environment SPG gives effect to DM06 and provides guidance on the issues that need to be considered when developing various buildings. Section 2 of the SPG considers how proposals should respond to Ceredigion's Character. Ceredigion is fortunate to have a rich history, which is often reflected in many of its buildings and spaces. In order to improve the quality of Ceredigion's built environment it is essential that new development is based on a thorough assessment of local character.

The SPG provides guidance on the elements of relevance to consider when designing a proposal which responds to Ceredigion's local Character with people and connectivity with the existing two of the four main elements to consider.

Design is a matter reserved for future consideration where full drawings would be presented, notwithstanding this it is considered that the abandoned dwelling could be brought back into use without negatively affecting the character and visual amenity of the locality.

Impact on residential Amenity

Criterion 7 of Policy DM06 seeks to protect the amenity of occupiers of nearby properties from significant harm in relation to privacy, noise and outlook.

It is considered that the development can be delivered without giving rise to any significant harm to residential amenity, with the final design and layout would be agreed at reserved matters stage

Ecological Impact

Both national and local planning Policy seek to maintain and enhance biodiversity and safeguard protected important sites.

Planning Policy Wales states at paragraph 11: 6.4.21 The first priority for planning authorities is to avoid damage to biodiversity and ecosystem functioning. Where there may be harmful environmental effects, planning authorities will need to be satisfied that any reasonable alternative sites that would result in less harm, no harm or gain have been fully considered

Planning Policy Wales 11: 6.4.25 Planning authorities should protect trees, hedgerows, groups of trees and areas of woodland where they have ecological value, contribute to the character or amenity of a particular locality, or perform a beneficial and identified green infrastructure function..... Permanent removal of woodland should only be permitted where it would achieve significant and clearly defined public benefits. Where woodland or trees are removed as part of a proposed scheme, developers will be expected to provide compensatory planting.

Planning Policy Wales 11: 6.4.22 states The presence of a species protected under European or UK legislation, or under Section 7 of the Environment (Wales) Act 2016 is a material consideration when a planning authority is considering a development proposal which, if carried out, would be likely to result in disturbance or harm to the species or its habitat and to ensure that the range and population of the species is sustained. Planning authorities should advise anyone submitting a planning application that they must conform with any statutory species protection provisions affecting the site, and potentially the surrounding area, concerned. An ecological survey to confirm whether a protected species is present and an assessment of the likely impact of the development on a protected species may be required in order to inform the development management process.

TAN 5: 6.3.7 States that LPAs should not grant planning permission without having satisfied itself that the proposed development would not adversely impact any European protected species or that, in its opinion, that the grant of a licence is likely to be satisfied. Not doing so would present a danger that the developer of a site would be unable to make practical use of the planning permission that had been granted to them.

Policy 9 of Future Wales 2040 seeks to ensure that Wales develops and maintain resilient ecological and green infrastructure networks. In all cases, action towards securing the maintenance and enhancement of biodiversity (to provide a net benefit), the resilience of ecosystems and green infrastructure assets must be demonstrated as part of development proposals through innovative, nature-based approaches to site planning and the design of the built environment.

Policies DM14 and DM15 of the Local Development Plan seeks to maintain and enhance biodiversity and safeguard protected important sites. Protected sites, habitats or species either directly, indirectly or in combination will only be permitted where it can be demonstrated that the proposal contributes to the protection, enhancement or positive management of the site, habitat or species or in certain other circumstances set out in the policy. The Council's SPG on biodiversity provides guidance on assessing the impact of development on designated sites or protected species.

Under section 28G of the Wildlife and Countryside Act 1981 the Council has a duty in so far as the grant of planning permission is likely to affect the flora, fauna, or geological or physiographical features by reason of which a SSSI is of special interest, to take reasonable steps

to further the conservation and enhancement of those features.

An Ecological Appraisal has been submitted in support of the scheme which identifies that no protected species are currently using the site. The CCC Planning Ecologist offers no comment in respect of the proposed development however NRW do not raise any objection. Owing to the limited scale and nature of the proposed development it is considered that the development proposal can be implemented without giving rise to any harm in respect of protected sites and species.

Highway Impact

The Local Highway Authority have been consulted on the application and offer no objection to the proposed development subject to conditions. Overall, it is considered that the proposed development will not have an unacceptable adverse impact on highway safety and movement, and there is sufficient capacity within the existing highway network to absorb the traffic created as a result of this development.

Surface Water Disposal

The councils own technical services department have advised SUDs approval is required and provide details of how to minimize the risk of surface water flooding. It is therefore considered that surface water disposal could be appropriately managed by way of the SUDs approval process, as such the proposed development is not considered to increase the risk of flooding.

Recommendation

It is recommended that the application be **refused** for the following reasons:

Given the ruinous state of the dwelling subject to the application the proposal conflicts with criterion 1i of Policy LU09 of the Ceredigion Local Development Plan 2007 – 2022 (adopted 2013). The proposed development is therefore considered as representing new housing in 'other locations' contrary to planning policies S01 and S04 of the adopted Ceredigion Local Development Plan 2007-2022 (adopted 2013)

Reasons for call in by LM Cllr Gwyn James

"It does not fall into the river Tivy phosphate area and there is a ruin of an old dwelling on the site."

Rhif y Cais / Application Reference	A240509
Derbyniwyd / Received	03-07-2024
Y Bwriad / Proposal	Newid defnydd o'r eiddo o fod yn swyddfa (cyfreithwyr) i fod yn annedd neu dŷ byw
Lleoliad Safle / Site Location	Manarafon, Stryd Y Capel, Tregaron, Ceredigion, SY25 6HA
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Whilst the designation of the site as part of the route for Llanilar By-Pass is acknowledged, regard must be given to the fact that the decision was taken nearly 40 years ago and no specific plans have been undertaken to seek implementation of the scheme. The scheme has not been considered or even referred to in any formal highway improvement programme and has no budget earmarked for its delivery. No evidence has been provided to demonstrate any further need for the by-pass.

It is the opinion of the LPA that the decision to earmark the site as a potential by-pass for Llanilar is now considered obsolete and undeliverable. It is further the opinion that its designation represent planning blight with no intention of the scheme being implemented in the near future. As such, the need for a dwelling in a sustainable location where there is capacity for residential dwellings outweighs the objection from the LHA.

Reference is also made to the comments of the Llanilar Community Council, especially their objection on grounds that the site should be allocated as a play area. It is noted that the Dol y Meillion planning permission, which is still incomplete, does provide provision for a designated play area on land directly to the south of the residential boundary of the estate. It is considered that the formally approved play area would meet the needs of residents in the immediate area. The use of the application site as a play area on a site which is closer to the main road could result in highway safety concerns and the fact that the site is also close to an area which is identified as a swale to cater for surface water run-off again raises general safety concerns to the detriment of its potential use as a play area.

In conclusion it is considered that the use of the application site for the provision of a single dwelling is acceptable and can be supported. It is recommended that the application be referred to the Authority's Legal Section for the drawing up of a S106 agreement in respect of a 10% commuted sum under policy S05 of the LDP. Once the legal agreement is completed it is recommended that the application be approved subject to conditions.

REASONS FOR REFERRAL:-

The local Ward Member, Cllr Meirion Davies requested the application be referred to the Development Management Committee for consideration for the following reasons:-

1. Because it's been built on a designated by-pass area which was allocated years ago.
2. More houses built than the original plan.
3. Third party objections, inc development impacting on highway safety, the land next to the proposed additional dwelling is a drainage area where problems have occurred with water running off the site and into gardens opposite.
4. At original planning submission land was supposed to be ring fenced by the developer as a recreational area for children to play which is desperately needed with the increasing families and children which have to play on the road.

RECOMMENDATION:

DEFER subject to completion of S106 agreement in respect of commuted sum contribution with powers to the Corporate and Lead Officer to approve the application subject to conditions once the legal agreement is complete.

2.4. A240772



Rhif y Cais / Application Reference	A240772
Derbyniwyd / Received	22-10-2024
Y Bwriad / Proposal	Cais cynllunio llawn ar gyfer ailwynebu ac ailwampio'r maes parcio presennol ynghyd â datblygiad preswyl a gwaith cysylltiedig
Lleoliad Safle / Site Location	Tir yn y maes parcio canolog, Ceinewydd, SA45 9QQ
Math o Gais / Application Type	Cynllunio Llawn
Ymgeisydd / Applicant	Mr Geraint Roberts (Barcud), Tŷ Canol House, Ffordd Croesawdy, Y Drenewydd, SY16 1AL
Asiant / Asiant	Mr Dylan Green (Asbri Planning), Asbri Planning Ltd, Uned 9, Oak Tree Court, Mulberry Drive, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd, CF23 8RS

Y SAFLE A HANES CYNLLUNIO PERTHNASOL

Mae safle'r cais yn cyfeirio at dir yn y maes parcio canolog sydd wedi'i leoli yng Nghanolfan Gwasanaethau Gwledig Ceinewydd, fel y'i diffinnir gan y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae'r safle yn ymestyn i oddeutu 2 hectar ac mae wedi'i leoli i'r de o'r gorllewin o ganol Ceinewydd mewn lleoliad cymharol uchel yn yr anheddiad. Mae topograffeg y safle yn afreolaidd ac, yn fras, yn cynnwys pedwar llwyfandir wedi'u cynnwys o fewn safle'r cais sy'n gweithredu fel maes parcio talu ac arddangos ar hyn o bryd a berchnogir ac a reolir gan yr ymgeisydd. Mae wyneb graean i'r maes parcio ac nid oes manau parcio wedi'u marcio; fodd bynnag, amcangyfrifir bod lle i oddeutu 200 o gerbydau yn y maes parcio.

Mae'r ffordd i mewn a'r ffordd allan o'r safle o Ffordd Towyn gyda'r maes parcio yn gweithredu system unffordd gan ddefnyddio dwy gyffordd i'r briffordd. Mae llwybr cyhoeddus 49/9 yn croesi'r safle i gyfeiriad gogledd/de trwy fynedfa balmantog fer oddi ar Ffordd Towyn, gyda'r llwybr yn croesi'r manau parcio ar y llwyfandir canolog cyn cysylltu â'r llwybr troed trwy'r dyffryn coediog i'r de.

Mae Capel Towyn sy'n Adeilad Rhestredig Gradd II wedi ei leoli i'r gogledd/gogledd-orllewin o'r safle a'r orsaf dân/ambiwylans i'r dwyrain. Mae coed aeddfed i'r de tra bod y tir yn union i'r gorllewin yn dir amaethyddol ac mae rhan helaeth o'r safle wedi'i ffinio gan goetir aeddfed a gwrychoedd. Yn ei bwynt agosaf mae'r safle dros 100m o Ardal Gadwraeth Ceinewydd ac nid yw wedi'i leoli o fewn Ardal Tirwedd Arbennig.

Mae safle'r cais wedi'i gynnwys o fewn rhan o safle H1001 Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Ceredigion sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer tai. Mae safle'r cais yn ymestyn i 2 hectar o'r 7 hectar sydd wedi'i gynnwys yn y dyraniad cyfan, a nodir mai ei arwynebedd datblygadwy net yw 5.34 hectar.

Gwneir y cais yn dilyn trafodaethau cyn ymgeisio rhwng yr ymgeisydd a'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar ddechrau 2024.

Hanes Cynllunio Perthnasol:

Mae un cais wedi cael ei gyflwyno yn ystod cyfnod y CDLI ar gyfer aildatblygu rhan o'r safle dyranedig (sydd, yn fras, yr un llain o dir sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd):

- A181235: Cynllunio Llawn – Ffurfioli'r maes parcio ar gyfer 124 o lefydd parcio, datblygiad preswyl i gynnwys 39 o anheddau, cadw'r annedd bresennol Bryneirin fel un annedd, a gwaith peirianyddol ac atodol cysylltiedig -- **GWRTHODWYD 30-09-2020**

Gwrthodwyd y cais ar sawl sail, sef trefniadau mynediad a threfn anaddas o fewn y safle, darpariaeth annigonol o fannau agored, strategaeth ddraenio annigonol, a diffyg gwybodaeth ynghylch darparu tai fforddiadwy.

MANYLION Y DATBLYGIAD

Cyflwynir y cais ar ran Gymdeithas Tai Barcud Cyf, landlord cymdeithasol cofrestredig, sy'n ceisio caniatâd cynllunio llawn ar gyfer datblygu 30 o dai fforddiadwy, cadw a ffurfioli 97 o lefydd parcio ceir cyhoeddus (gan gynnwys gwefru cerbydau trydan), ffurfioli'r mynediad priffyrdd ac i gerddwyr trwy'r safle i safonau mabwysiadwy, darparu manau agored cyhoeddus, a'r holl waith cysylltiedig.

Mae'r anheddau i'w darparu fel a ganlyn:

- 10 fflat 1 ystafell wely 2 berson (~52msg)
- 6 fflat 2 ystafell wely 3 pherson (~60sq.m)
- 10 tŷ 2 ystafell wely 4 person (~84msg)
- 4 tŷ 3 ystafell wely 5 person (~95msg)

Mae'r anheddau yn cael eu cynnig mewn dau fath o dŷ, fflatiau a thai pâr deulawr mewn dau lain ar wahân o'r safle datblygu gan ddefnyddio un mynediad trwy'r maes parcio cyhoeddus arfaethedig. Bydd y 14 o unedau pâr yn cael eu lleoli yn union i'r de o'r maes parcio bob ochr i'r ffordd y stad arfaethedig cyn ysgubo tua'r gorllewin i lwyfandir uwch lle bydd yr 16 fflat yn cael eu hadeiladu mewn 3 bloc tri llawr.

Mae'r tai pâr yn cael eu cynnig gyda thalcenni blaen a chefn (h.y. wedi'u cysylltu gan gafn canolog) o dan doeau llechi/teils ar oleddf ac wedi'u gorffen mewn rendr llyfn wedi'i baentio gyda phlithau brics/cerrig. Bwriedir i'r anheddau gael eu paentio mewn amrywiaeth o liwiau llachar yn ôl palet a ddarparwyd gyda drysau, ffenestri, nwyddau dŵr glaw a ffasiâu tebyg neu mewn gorffentiadau niwtral. Bydd pob

annedd yn elwa o lefydd parcio pwrpasol i'w ffryntiadau neu ochrau, manau amwynder preifat yn y cefn i gynnwys patio, ardaloedd wedi'u tirweddun naturiol, a phympiau gwres o'r aer, gyda phaneli solar ar eu toeau.

Bydd yr 16 fflat i'r gorllewin o'r safle yn cael eu darparu mewn 3 bloc tri llawr gyda dyluniad cyfoes, a bydd pob elfen fertigol yn cael ei ddarparu o dan doeau un goleddf sy'n wynebu'r de. Darperir yr unedau ar y llawr cyntaf a'r ail llawr yn bennaf, gyda 2 fflat yn cael eu darparu yn yr unedau llawr gwaelod mwyaf gogleddol a deheuol. Bydd yr unedau ar y llawr gwaelod yn darparu cyfleusterau parcio pwrpasol i breswylwyr o'r dreif a rennir.

Bwriedir i'r fflatiau fod o frics/cerrig ar y lloriau gwaelod a gorffeniad cladin i'r lloriau cyntaf a'u hail loriau o dan doeau dur lliw. Bydd mynediad i'r lloriau uchaf yn cael ei ddarparu gan deras allanol a rennir yng nghefn y blociau, a bydd gan bob fflat deras bach awyr agored yn wynebu'r gorllewin. Ar eu ffryntiadau bydd balconi Juliette sy'n wynebu tua'r môr ym mhob fflat llawr cyntaf ac ail llawr.

Bydd y maes parcio cyhoeddus arfaethedig yn cael ei adeiladu ar y tri llwyfandir sydd agosaf at fynediad y safle mewn adrannau gan ddarparu 27, 34 a 30 o lefydd yr un. Cynigir rhoi manau gwefru cerbydau trydan o fewn y datblygiad, fodd bynnag, dangosol yn unig yw nifer penodol y gorsafoedd a'u lleoliadau at ddibenion y cynllun. Byddai'r maes parcio yn parhau mewn perchnogaeth breifat ar ôl y datblygiad.

Byddai manau agored cyhoeddus yn cael eu darparu ar ffurf manau chwarae naturiol â chyfarpar a manau gwyrdd naturiol hygyrch cymunedol wedi'u lleoli mewn ardaloedd o amgylch y maes parcio.

Bydd draeniad dŵr budr yn cysylltu â'r brif garthffos a byddai dŵr wyneb yn cael ei drin gan systemau draenio cynaliadwy yn amodol ar gymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy.

POLISIÂU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Mae'r polisiau cenedlaethol a lleol canlynol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12, Chwefror 2024)
- TAN 2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)
- TAN 5 Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)
- TAN12 Dylunio (2016)
- TAN18 Trafnidiaeth (2007)
- TAN20 Cynllunio a'r Gymraeg (2017)
- S01 Twf Cynaliadwy
- S03 Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig
- S05 Tai Fforddiadwy
- LU02 Gofynion sy'n Ymwneud â Phob Datblygiad Preswyl
- LU04 Diwallu Amrywiaeth o Anghenion Tai
- LU05 Sicrhau Cyflenwi Datblygiadau Tai
- LU06 Dwysedd Tai
- LU24 Darparu Manau Agored Newydd
- DM01 Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol
- DM05 Datblygu Cynaliadwy a Budd Cynllunio
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM08 Arwyddion Dwyieithog ac Enwau Lleoedd
- DM09 Dylunio a Symud
- DM10 Dylunio a Thirwedd
- DM11 Dylunio ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd
- DM12 Seilwaith Cyfleustodau
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol
- DM20 Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd
- DM22 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol
- Cymuned a'r Iaith Gymraeg – Canllawiau Cynllunio Atodol 2015
- Manau Agored – Canllawiau Cynllunio Atodol Ebrill 2014
- Safonau Parcio CSC – Canllawiau Cynllunio Atodol 2015
- Aseiad Trafnidiaeth – Canllawiau Cynllunio Atodol 2015
- Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio – Canllawiau Cynllunio Atodol 2015
- Tai Fforddiadwy – Canllawiau Cynllunio Atodol 2014

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar ei ardal, a'r angen i wneud popeth y mae'n rhesymol iddo ei wneud i atal trosedd ac anhrefn yn ei ardal. Cafodd y dyletswydd hon ei hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Bernir na fyddai unrhyw gynnydd arwyddocaol neu annerbyniol mewn trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau effaith yr anfanteision a ddiodefif gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i ateb anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig pan fydd y rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill os yw'r nifer sy'n cymryd rhan yn anghymesur o isel.

Mae'r ddyletswydd uchod wedi cael ystyriaeth briodol wrth benderfynu'r cais hwn. Bernir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn creu unrhyw oblygiadau arwyddocaol, neu effaith, ar bobl sydd â nodwedd warchoddedig, yn fwy nag unrhyw unigolyn arall.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi wrth ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y nodwyd yn Neddf 2015. Wrth wneud yr argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain.

YMATEBION YMGYNGHORI

Cyngor Tref Ceinewydd Town Council:

Mae Cyngor Tref Ceinewydd yn GWRTHWYNEBU'R cais am y rhesymau canlynol:

- Mae colli dros 200 o lefydd parcio yn niweidiol i ddiwydiant twristiaeth Ceinewydd sy'n groes i amcanion y Cyngor Tref yn ei gynllun lle, sef hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy, gwarchod harddwch naturiol y dref, ac ar yr un pryd cefnogi busnesau lleol trwy gydol y flwyddyn.
- Prinder trafniadaeth gyhoeddus trwy Geinewydd yn enwedig ar y Sul a Gwyliau Banc i ddarparu ar gyfer y trigolion ychwanegol hynny sydd am ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus ar gyfer gwaith ac ati.
- A oes galw am anneddiadau 1 ystafell wely yng Ngheinewydd oherwydd datblygiad cyn Ysbyty Aberaeron sydd hefyd yn cynnig fflatiau 1 ystafell wely ac a fydd yn cael eu hadeiladu cyn y datblygiad hwn? Allwch chi gadarnhau y nifer ar y gofrestr tai sydd angen y fflatiau hyn yn Aberaeron a Cheinewydd?
- Mae Cyngor Tref Ceinewydd wedi cael gwybod ei bod yn anodd gosod fflatiau 2 ystafell wely? Ydy eiddo 2 ystafell wely wedi'u neilltuo (yn y mwyafrif helaeth o achosion) ar gyfer teuluoedd ac, yn bennaf, teuluoedd ifanc ar y gofrestr dai? Nid yw teuluoedd ifanc am gael eiddo heb erddi? (rydym yn cydnabod mai eisiau yw hwn ac nid angen ar gyfer y rhan fwyaf)
- Ni fyddai'r dreth ystafell wely yn cael ei heithrio ar gyfer aelwydydd sy'n byw mewn fflatiau 2 ystafell wely nes eu bod dros 65 oed, yn hanesyddol nid yw ymgeiswyr dros 65 oed am fyw yn uwch nag eiddo llawr gwaelod oherwydd symudedd?
- Oes unrhyw geisiadau gan aelwydydd â phlant sydd wedi tyfu i fyny ac sydd angen eiddo 2 ystafell wely (ar gyfer plentyn sy'n oedolyn) lle na fyddai'r ardd yn gymaint o broblem?

Priffyrdd:

Dim gwrthwynebiad yn ddarostyngedig i amodau.

Draenio Tir:

Angen cymeradwyaeth Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)

Ecoleg:

Dim gwrthwynebiad yn ddarostyngedig i amodau.

Cyfoeth Naturiol Cymru:

Dim gwrthwynebiad yn ddarostyngedig i amodau.

Dŵr Cymru Welsh Water:

Dim gwrthwynebiad yn ddarostyngedig i amodau.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus:

Mae llwybr troed 49/9 yn rhedeg trwy'r safle arfaethedig. Darperir nodiadau cynghori.

Derbyniwyd sylwadau gan 30 o unigolion (29 yn gwrthwynebu, 1 yn cefnogi) wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

Gwrthwynebu:

- Effaith ar dwristiaeth a'r economi leol trwy golli darpariaeth parcio
- Pryderon llifogydd dŵr wyneb
- Effaith ar rywogaethau a warchodir a gwyrddni ar y safle
- Llygredd yn ystod y gwaith adeiladu a gollyngiadau i Fae Ceredigion
- Dyluniad anghydnaws â'r ardal teol
- Ymholiadau ynghylch pwy fydd yn byw yn yr anheddau

- Nid oes angen tai cymdeithasol ac nid ydynt yn briodol yng Ngheinewydd
- Nid oes angen llety 1 ystafell wely yng Ngheinewydd
- Effaith ar wasanaethau lleol (ysgolion, meddygon)
- Anghydfod rhwng cymdogion ynghylch hawliau tramwy i dir cyfagos
- Mae llawer o eiddo heb eu gwerthu yng Ngheinewydd

Cefnogi:

- Prinder tai fforddiadwy yn y sir
- Gall preswylwyr parhaol ychwanegol yng Ngheinewydd helpu'r economi, yn enwedig yn ystod y gaeaf
- Digonedd o lefydd parcio ar gael mewn mannau eraill yng Ngheinewydd
- Cefnogi defnyddio tir llwyd

CASGLIAD

Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan: "Os yw'r cynllun datblygu i'w ystyried at ddiben unrhyw benderfyniad sydd i'w wneud o dan y Deddfau Cynllunio, rhaid i'r penderfyniad fod yn unol â'r cynllun oni bai bod ystyriaeth berthnasol yn nodi fel arall".

Dyraniad Safle a'r Egwyddor Datblygu

Mae safle'r cais o fewn ffin anheddiad Canolfan Gwasanaethau Gwledig Ceinewydd ac yn rhan o ddyraniad H1001 ar gyfer tai a ddarparwyd gan Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) Ceredigion.

Mae'r dyraniad cyfan yn ymestyn i oddeutu 6.98 hectar, gydag arwynebedd datblygadwy net o 5.34 hectar. Mae'r safle wedi'i ddyrannu er mwyn darparu tai cyffredinol gydag amcangyfrifed o 134 o unedau ac amcangyfrif o 26.8 uned o dai fforddiadwy sy'n cyfateb i ddwsedd canllaw o 25 uned yr hectar.

Mae rhan o'r safle yn faes parcio preifat ar hyn o bryd a nod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw cadw elfen o'r safle ar gyfer y defnydd hwnnw; yn wir, cyfeirir at y gofyniad hwn yn rhestr safleoedd a ddyrannwyd y CDLI. Mae mwy o dir wedi ei gynnwys yn y dyraniad safle nag sydd ei angen er mwyn sicrhau bod digon o hyblygrwydd i sicrhau datblygiad o ansawdd uchel sy'n cadw darpariaeth ar gyfer maes parcio sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Mae'r maes parcio yn gyfleuster cymunedol pwysig ar gyfer ffyniant economaidd a bywiogrwydd y ganolfan gwasanaethau sydd wedi'i lleoli o fewn anheddiad arfordirol adeiledig gyda chyfleoedd parcio cyfyngedig. Mae'r galw am y maes parcio hefyd yn amrywio yn ôl y tymor twristiaeth.

Mae'r safle dan sylw yn y cais hwn yn cynnwys arwynebedd llai, sef cyfanswm o ryw 2 hectar. Mae'r tir yn y cais hwn yn cynnwys rhan ddwyreiniol y dyraniad ac felly'n agosaf at ffurf adeiledig y dref ac yn cyd-gyfuno â hi. Dyma'r rhan fwyaf gwastad y dyraniad, lle mae'r dyraniad ehangach i'r gorllewin yn cwrdd â llethr serth sy'n rhannu'r dyraniad yn ffisegol. Bydd y tir o fewn eithafion gorllewinol safle'r cais yn parhau heb ei ddatblygu, ond nid yw o reidrwydd yn cael ei ystyried wedi'i sterileiddio gan y datblygiad arfaethedig dan sylw. Fodd bynnag, fel y cytunwyd yn y cam cyn ymgeisio, mae'r ACLI yn cydnabod y cyfyngiadau sylweddol yn natblygiad gweddill y safle dyranedig ac felly'n cytuno mewn egwyddor i'r cais i'w ddatblygu'n rhannol.

Mae Polisi S01 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 (CDLI) yn cyfeirio at 'Dwf Cynaliadwy' ac yn ceisio canolbwyntio datblygu ar ddarparu cymunedau cryfach, mwy cynaliadwy ar draws y sir. Wrth fabwysiadu'r CDLI, nododd y Polisi fod angen datblygu oddeutu 6,544 o anheddau erbyn diwedd cyfnod y cynllun yn 2022, gydag o leiaf 51% o ddatblygiadau tai newydd yn digwydd yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol, 24% yn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig, a 25% mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill.

Yn ystod cyfnod y CDLI 2007 -2022, cafodd 3527 o unedau eu caniatáu (1476 o fewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill), gyda 3228 o unedau wedi'u cwblhau (1431 o fewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill). Er mai dyddiad diwedd y CDLI oedd 31 Mawrth 2022, hwn fydd y Cynllun Datblygu o hyd ar gyfer Ceredigion hyd nes y caiff Cynllun newydd ei fabwysiadu.

Cyfanswm y gofyniad ar gyfer darparu tai yng Ngheinewydd fel y nodir yn y CDLI yw 151. Mae ffigurau monitro tai diweddaraf y CDLI o fis Tachwedd 2024 yn dangos bod 43 o anheddau wedi cael eu cwblhau o fewn y Ganolfan Gwasanaethau Gwledig gyda chaniatâd yn bodoli ar gyfer 22 o anheddau pellach. Felly, gan ystyried dymchweliadau ac addasiadau (-2) mae capasiti ar gyfer 88 o anheddau pellach yng Ngheinewydd.

Felly, ystyrir y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â Pholisïau S01 ac S02 y CDLI, ac mae'r egwyddor datblygu yn dderbyniol.

Gan fod hwn yn gais ar gyfer 100% tai fforddiadwy gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, nid yw gofynion Polisi S05 yn berthnasol.

Mae'r egwyddor datblygu felly yn dderbyniol.

Mae'r maes parcio presennol yn cael ei weithredu'n breifat fel busnes masnachol ac felly nid oes gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol na'r Cyngor unrhyw reolaeth dros ei weithrediad. Mewn perthynas â newid defnydd y tir sy'n arwain at gollu'n rhannol y ddarpariaeth barcio, mae dyraniad y safle yn gofyn am "Gyfran o'r safle i aros ar gyfer parcio ceir cyhoeddus" ac felly ystyrir bod y cynnig dan sylw yn cyd-fynd â dyheadau'r dynodiad, gan gadw a ffurfioli bron i 50% o'r capasiti presennol a nodir -- i gynnwys darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan. Dylid cydnabod hefyd y bydd yr holl anheddau arfaethedig yn elwa o'u mannau parcio dynodedig eu hunain.

O ystyried statws neilltuedig y tir a'r angen sylweddol am dai fforddiadwy, ystyrir nad yw'r golled rannol o le parcio yn gorbwyso'r budd cynllunio a nodwyd yn sgil y datblygiad.

O ran effaith y datblygiad ar wasanaethau lleol byddai rhoi caniatâd yn cynnal diffyg o 58 o anheddau o fewn yr anheddiad yn erbyn darpariaethau'r CDLI, ac felly ystyrir bod yr anheddiad a'i ddarpariaeth gwasanaeth yn gallu darparu ar gyfer y datblygiad.

Mae Polisi DM01 'Rheoli Effeithiau Datblygiad ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg' yn ei gwneud yn ofynnol i Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol gael ei ddarparu mewn perthynas â datblygiadau tai o fewn Canolfannau Gwasanaethau lle byddai'r cyflenwad tai yn datblygu'n gyflymach na'r hyn a nodir yn y Datganiad Grŵp Aneddiadau.

Ni fyddai'r cyflenwad tai arfaethedig yn datblygu'n gyflymach na'r hyn y cyfeirir ato yn y Datganiad Grŵp Aneddiadau, ac felly ystyrir y gellir cyflenwi'r datblygiad heb gael unrhyw effaith negyddol ar broffil cymunedol ac ieithyddol Ceinewydd.

Cymysgedd Tai

Mae maen prawf 2 Polisi LU02 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau preswyl ddarparu cymysgedd o fathau a meintiau o anheddau. Mae'r datblygiad yn cynnig y cymysgedd tai canlynol:

- 10 fflat 1 ystafell wely 2 berson (~52msg)
- 6 fflat 2 ystafell wely 3 pherson (~60sq.m)
- 10 tŷ 2 ystafell wely 4 person (~84msg)
- 4 tŷ 3 ystafell wely 5 person (~95msg)

Yn dilyn trafodaethau yn y cam cyn ymgeisio a oedd yn cynnig fflatiau 1 ystafell wely yn unig, mae'r cymysgedd wedi cael ei ddiwygio i ddarparu 6 fflat 2 ystafell wely ar gyfer tri pherson. Ystyrir bod y cymysgedd cyffredinol o raddfa a darpariaethau yn briodol i ddarparu ar gyfer ystod eang o unigolion a theuluoedd sydd angen tai fforddiadwy.

Mae Uwch Swyddog Tai y Sir (Tai Fforddiadwy ac Arbenigol) wedi gwneud y sylwadau canlynol, yn gyntaf mewn perthynas â'r galw am eiddo 1 ystafell wely (a chan gyfeirio at y datblygiad sy'n mynd rhagddo yng nghynhyr Ysbyty Aberaeron):

- *Mae'r galw mwyaf yng Ngheredigion ar gyfer eiddo 1 ystafell wely ac mae'n dangos 245 yn "Rhanbarth" Aberaeron, a thros 1900 yn y Sir, a dim ond Bandiau A-C yw hynny.*
- *Cawn ein gwrthio'n gyson gan swyddogion Llywodraeth Cymru i fodloni'r galw heb ei fodloni ar gyfer eiddo 1 ystafell wely.*
- *Oherwydd y nifer cyfyngedig o stoc tai cymdeithasol a datblygiad diweddar yng Ngheinewydd, byddai'n ddilys i awgrymu nad yw llawer o'r bobl ar y gofrestr dai yn dewis Ceinewydd fel opsiwn gan eu bod yn meddwl ei fod yn annhebygol iawn y bydd eiddo ar gael yn yr ardal benodol honno. Mae'n ardal boblogaidd iawn i fyw ac os bydd tai ar gael rwy'n credu y bydd gormod o geisiadau amdanynt.*
- *Wedi trafod y galw gyda Barcud maen nhw'n sicr os yw eitem yn cael ei rhoi ar Facebook (neu ble bynnag) yn cadarnhau bod y fflatiau hyn ar gael, mae profiad yn dweud wrthynt y bydd pobl yn ciwio amdanynt!*
- *Cofiwch hefyd y bwriad i gymhwyso polisi gosod lleol sy'n blaenoriaethu ymgeiswyr o'r ardal gerllaw, gan ehangu dim ond os oes prinder ymgeiswyr.*

O ran y cymysgedd tai arfaethedig ehangach, gwnaeth y Swyddog y sylwadau canlynol:

- **10 fflat 1 ystafell wely 2 berson (~52msg)**
 - *Roedd y ffigyrau diwethaf yn dangos angen am 23 ar gyfer Ceinewydd yn benodol, a 122 ar gyfer Ceinewydd ac Aberaeron. Gan ein bod yn cynnig dim ond 10 ar gyfer Ceinewydd, mae'n ymddangos i mi ein bod ymhell o dan y ffigur a nodwyd ar gyfer y dref, a ddim yn gwneud unrhyw newid mawr i'r cyfanswm ar gyfer yr ardal ehangach. Mae'n werth nodi hefyd mai'r bwriad gwreiddiol oedd 16 a chafodd hyn ei leihau i 10 oherwydd pryderon lleol a thrafodaethau â'r Uwch Swyddog Tai (Cofrestr Tai).*
- **6 fflat 2 ystafell wely 3 pherson (~60sq.m)**
 - *Yr angen diwethaf a nodwyd ar gyfer cartrefi 2 ystafell wely yw 19 ar gyfer Ceinewydd, 38 ar gyfer Aberaeron ac 830 ar gyfer Ceredigion (Band A-C yn unig). Dim ond eiddo 1 ystafell wely sy'n cael eu darparu yn Aberaeron felly bydd yr unedau newydd yn deillio o'r cynllun hwn.*
- **10 tŷ 2 ystafell wely 4 person (~84msg)**
 - *Gweler uchod*
- **4 tŷ 3 ystafell wely 5 person (~95msg)**
 - *Yr angen diwethaf a nodwyd ar gyfer cartrefi 3 ystafell wely yw 6 ar gyfer Ceinewydd, 12 ar gyfer Aberaeron a 471 ar gyfer Ceredigion (Band A-C yn unig). Dim ond eiddo 1 ystafell wely sy'n cael eu darparu yn Aberaeron felly bydd yr unedau newydd yn deillio o'r cynllun hwn.*

I gloi, bydd y datblygiad arfaethedig yn gwneud cyfraniad bach ond pwysig o ran mynd i'r afael â'r angen sylweddol ac amlwg am dai fforddiadwy yng Ngheinewydd, ei rhanbarth, a'r sir ehangach.

Dwysedd Tai

O ran dwysedd tai, mae safle'r cais yn ei gyfanwydd yn cynnwys oddeutu 2 hectar; fodd bynnag, mae oddeutu 0.5 hectar o'r cyfanswm hwn yn cynnwys y llethrau serth a choediog ar ran orllewinol y safle sydd i'w gadw, ac felly nid yw'n cael ei ystyried yn rhan o'r arwynebedd datblygadwy, gan felly arwain at oddeutu 1.5 hectar o arwynebedd y gellir ei ddatblygu.

Yn seiliedig ar gyflenwi 30 uned, mae hyn yn cyfateb i ddwysedd o oddeutu 20 annedd fesul hectar sy'n yn is na'r dwysedd canllaw a ddarperir gan y dyraniad o 25 annedd fesul hectar.

Fodd bynnag, fel y cydnabyddir yn y rhestr o safleoedd dyranedig ac yn yr adroddiad hwn, mae'r ACLI yn cefnogi cadw maes parcio cyhoeddus o fewn y safle, yn cydnabod yr angen i ddarparu mannau agored cyhoeddus addas a llwybrau hygyrch trwy'r safle, ac yn ystyried trefn arfaethedig yr unedau preswyl er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r safle gan gydnabod ei gyfyngiadau topograffigol, lle y gall datblygiadau gael eu darparu'n ymarferol dim ond ar barseli ar wahân o'r safle cyfan heb ymgymryd â gweithrediadau peirianyddol mawr a fyddai'n bygwth hyfywedd y cynllun.

Ymhellach, byddai cynyddu'r dwysedd hwn yn debygol o gael ei gyflawni gan loriau ychwanegol i'r ffurf adeiledig arfaethedig a fyddai ynddo'i hun yn codi materion yn ymwneud â dyluniad ac effaith weledol y cynllun.

I gydnabod y materion a nodir uchod, mae'r ACLI yn ystyried bod y datblygiad o ddwysedd tai priodol i ddarparu tai fforddiadwy y mae mawr eu hangen, gan sicrhau yr un pryd ddarpariaethau digonol fel arall ar y safle o ran maes parcio cyhoeddus, mannau ~~25/09/20~~

cyhoeddus a hygyrchedd cerddwyr/cerbydau yn gyffredinol.

Tai Fforddiadwy

Gan fod y cais yn cael ei gyflwyno ar ran landlord cymdeithasol cofrestredig, nid yw'n ofynnol i'r ACLI gwblhau cytundeb A106 oherwydd gellir rheoli deiliadaeth yr anheddau yn ddigonol trwy amod cynllunio.

Dylunio, Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol

Mae Polisi DM06 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau roi ystyriaeth lawn a chyfrannu'n gadarnhaol at gyd-destun ei leoliad a'i amgylchoedd. Mae'n hyrwyddo dylunio arloesol gan ystyried yr un pryd hynodrydd lleol o ran ffurf, dyluniad a deunyddiau, a rhaid ystyried cydlyniant y ffurf adeiledig o ran graddfa, uchder a chymesuredd wrth gyfeirio at batrymau'r safle presennol. Yn ogystal, mae Polisi DM17 yn datgan na ddylai datblygiad gael effaith niweidiol arwyddocaol ar ansawdd a chymeriad y dirwedd, boed hynny trwy ymwithiad gweledol, lleoliad ansensitif, defnyddiau anghydnavs, methu cyd-fynd neu wella'r tiffurf, neu golli nodweddion a phatrymau traddodiadol pwysig.

Dylid cydnabod yn gyntaf fod y rhan fwyaf o safle'r cais yn dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd) lle mae'r llwyfandir a gynigir i ddarparu ar gyfer y datblygiad yn bodoli ac yn ffurfio rhan o'r maes parcio presennol. Ystyrir mai bach yw maint y gwyrddni presennol y mae angen ei symud ac felly ni ystyrir bod effaith weledol y golled hon o bwys sylweddol. Ymhellach, mae'r safle wedi'i leoli y tu allan i Ardal Gadwraeth Ceinewydd gan fwy na 100m, ac felly gellir ei ddatblygu heb niwed, yn amodol ar ystyriaethau penodol o ran dyluniad a graddfa.

O ran cymeriad gweledol a threfn y datblygiad arfaethedig, gan droi'n gyntaf at ffurfioli'r maes parcio mae'r ACLI o'r farn y byddai'r gwaith o fudd gweledol i'r ardal yn union cyfagos i'r anheddiad trwy ffurfioli'r ddarpariaeth bresennol a chynnwys manau gwyrdd o safon uchel yn yr ardal gerllaw. Bydd y maes parcio yn defnyddio'r lefelau tir presennol ac yn gwella hygyrchedd y ddarpariaeth i gerddwyr a cherbydau er budd defnyddwyr.

Gan droi at y tai pâr i'r de o'r safle, mae'r ACLI o'r farn bod yr anheddau o ffurf gymharol safonol, gan ddefnyddio dyluniad to ar oleddf er eu bod wedi'u gogwyddo'n wahanol i'r adeiladau mwy traddodiadol yn yr ardal leol. Yn dilyn sylwadau yn y cam cyn ymgeisio, mae mân newidiadau wedi cael eu gwneud yn unol â chynghor yr ACLI ynghylch dyluniad ffenestri, h.y. cynnwys bariau codi i adlewyrchu cymeriad mwy traddodiadol ac ychwanegu diddordeb at edrychiad gweledol yr anheddau.

At ei gilydd ystyrir bod ffurf a dyluniad y tai pâr o faint a graddfa briodol ac nid ydynt yn achosi pryder o ran niwed gweledol. Roedd palet deunyddiau yn rhoi manylion am nifer o opsiynau ar gyfer elfennau o'r dyluniad, gan gynnwys llechi/teils ar gyfer y toeau a brics/cerrig ar gyfer y plinthiau. Argymhellir bod amod yn cael ei osod yn ei gwneud yn ofynnol i'r manylion penodol hyn gael eu cyflwyno er mwyn sicrhau gorffeniad o ansawdd uchel a chydlynol ar gyfer yr anheddau.

O ran y fflatiau arfaethedig, mae eu lleoliad ar y llwyfandir uwch yn cynyddu eu gwelededd o fewn y dirwedd oddi amgylch o'i gymharu â gweddill y safle, ac felly dylid ystyried unrhyw effaith ehangach a all gael ei phrofi. Roedd trafodaethau yn ystod y cam cyn ymgeisio yn cydnabod natur gyfoes y dyluniad to un goleddf, ond derbyniwyd bod dyluniad o'r fath yn sicrhau bod uchder y datblygiad yn cael ei gadw mor isel â phosibl o fewn y dirwedd. Mae'r dyluniad modern yn fuddiol gan ei fod yn gwahaniaethu'n amlwg rhwng ffurf adeiledig draddodiadol a mwy cyfoes yn yr anheddiad; yn yr achos hwn wedi'i leoli i ffwrdd o'r Ardal Gadwraeth gan sicrhau dim niwed i ardaloedd dynodedig.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r grisiau allanol a'r terasau yng nghefn yr adeiladau ar sail eu heffaith ar edrychiad yr adeiladau yn ogystal ag eglurder y datblygiad i drigolion, gan awgrymu y byddai ymgorffori'r grisiau o fewn yr adeiladau yn well. Mae dogfennau a gyflwynwyd yn datgan bod opsiynau o'r fath wedi cael eu hystyried, fodd bynnag, byddai'r canlyniad terfynol yn cael effaith niweidiol ar raddfa a maint yr adeiladau ar draul y dyluniad cyffredinol. Ar y sail hon, mae'r ACLI yn derbyn y rhesymau a roddwyd ac yn ystyried bod cyfiawnhad priodol wedi'i roi dros y dyluniad fel y'i cyflwynwyd.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol wedi'i ddarparu i archwilio effaith weledol y datblygiad ymhellach. Mae'r asesiad yn cydnabod statws dyranedig y tir, ei statws fel tir a ddatblygwyd o'r blaen, ei berthynas uniongyrchol â ffurf drefol yr anheddiad, ac unrhyw effaith yn sgil dymchwel coed/llystyfiant a phlannu. Daw i'r casgliad na fyddai datblygiad y tir yn anghyson ac y byddai'n amlwg yn cael ei ddarllen fel rhan o'i gyd-destun trefol. Mae'r datblygiad yn defnyddio lefelau'r safle presennol i sicrhau nad oes unrhyw newid sylweddol i gymeriad yr ardal, a gall unrhyw golled bach o goed/llwyni gael ei liniaru'n ddigonol er mwyn sicrhau strydun deniadol o ansawdd uchel.

I gloi, bydd ffurfioli'r maes parcio yn arwain at welliant gweledol i'r cyfleuster presennol ac yn darparu ar gyfer ymgorffori seilwaith gwyrdd yn well yn y cyfleuster cyhoeddus. O ran y datblygiad preswyl, mae'r dyluniad arfaethedig yn ymgorffori cymysgedd priodol o ffurfiau traddodiadol gan hyrwyddo dyluniad cyfoes yr un pryd na fydd yn gwrthdaro'n niweidiol â chymeriad y ffurf adeiledig amrywiol oddi amgylch. Mae'r safle wedi'i leoli i ffwrdd o Ardal Gadwraeth Ceinewydd ac felly gellir darparu ar ei gyfer, yn unol â DM06, DM17 a DM19.

Effaith ar Leoliad Adeiladau Rhestredig

Er ei fod y tu allan i'r Ardal Gadwraeth, ystyrir bod y safle wedi'i leoli o fewn amgylchedd un Adeilad Rhestredig, sef Capel Annibynol Tywyn sy'n Adeilad Rhestredig Gradd II i'r gogledd-orllewin o'r safle.

Gan gyfeirio at y golygfannau a ddarperir yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol, ystyrir bod gwelededd rhwng yr Adeilad Rhestredig a safle'r cais yn gyfyngedig oherwydd datblygiad adeiledig sy'n torri ar ei draws a choed aeddfed. Ymhellach, mae lleoliad yr anheddau ar gyrion deheuol a gorllewinol y safle yn golygu bod y rhan fwyaf o'r gwelededd i ac o'r maes parcio presennol/wedi'i ffurfioli pan edrychir arno o'r Adeilad Rhestredig.

Felly, ar sail cadw'r tirweddau a'r seilwaith gwyrdd presennol i ffin ogleddol y safle, ni ragwelir unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol ar yr Adeilad Rhestredig a gellir darparu ar gyfer y datblygiad.

Mannau Agored Cyhoeddus

Byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at greu 54 ystafell wely, ac felly mae angen darparu manau cyhoeddus yn unol â'r meincnodau a nodir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru 'Arweinlyfr Mannau Gwyrdd' (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach) a safonau Fields in Trust. Mae

Canllawiau Cynllunio Atodol Mannau Agored Ceredigion yn rhoi rhagor o eglurder ynghylch y ddarpariaeth o fannau agored sy'n ofynnol, a nodir fel 2.8 hectar fesul 1000 o bobl. Mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo cyfanswm y manau agored sy'n ofynnol fel a ganlyn:

2.8 hectar y 1000 o'r boblogaeth 2.8 hectar/1000 * nifer yr ystafelloedd gwely = cyfanswm manau agored

2.8 hectar/1000 * 54 = 0.1512 hectar neu 1512 metr sgwâr

Mae'r datblygiad yn darparu 1,110 metr sgwâr o Fannau Agored Cyhoeddus ar ffurf 317 metr sgwâr o fannau chwarae naturiol â chyfarpar a 793 metr sgwâr o fannau gwyrdd naturiol hygyrch i'r gymuned.

Mae'r dogfennau a gyflwynwyd yn egluro bod 230 metr sgwâr ychwanegol o Fannau Agored Cyhoeddus wedi'i gynnwys yn y cynllun cychwynnol fel y trafodwyd yn y cam cyn ymgeisio, fodd bynnag, ar ôl cynnal y broses ymgynghori cyn ymgeisio statudol, roedd y mwyafrif o'r gymuned yn gryf o blaid ceisio cadw cymaint o lefydd parcio cyhoeddus â phosibl i gefnogi anghenion lleol. Felly, mae'r llwyfandir isaf yng nghornel ogledd-ddwyreiniol y safle wedi cael ei ddiwygio i ddarparu 27 o lefydd parcio ychwanegol yn lle 230 metr sgwâr o Fannau Agored Cyhoeddus mewn ymateb i'r broses ymgynghori cyn ymgeisio.

Er bod y ffigur hwn yn is na'r gofyniad a nodwyd, mae Canllawiau Cynllunio Atodol Mannau Agored Ceredigion yn glir bod manau gwyrdd ac agored nad ydynt efallai'n cael eu cydnabod yn aml am eu cyfraniad pwysig at y ddarpariaeth gyffredinol o fannau agored. Mae ardaloedd o'r fath yn cynnwys gerddi preifat, glannau afonydd, rhandiroedd, llwybrau beicio a llwybrau i gerddwyr a mynwentydd sydd i gyd yn amgylcheddau pwysig ac yn cynnig naill ai mynediad i fan agored neu deimlad o fod o fewn neu gael eich amgylchynu gan fan 'gwyrdd'. Yn yr achos hwn, bydd y safle yn cadw gwyrddni sylweddol na fydd o bosibl yn cael ei ddarparu fel man gwyrdd swyddogaethol, serch hynny, bydd yn cyfrannu at amgylchedd cyffredinol yr ardal.

Ymhellach, mae'r safle wedi ei leoli'n gynaliadwy yn yr anheddiad ac o fewn pellter cerdded byr i gyrtiau tennis, cae pêl-droed/chwaraeon, clwb bowlio, a lle chwarae i blant o fewn 150m i fynediad y safle, a gellir cydnabod bod darparu manau agored swyddogaethol, o ansawdd uchel yn cael ei lesteirio i'r un graddau gan dopograffeg anodd y safle. Felly, i gydnabod y ddarpariaethau presennol gerllaw, ac fel diwygiad a wnaed mewn ymateb i gynrychiolaeth gymunedol, mae'r ACLI o'r farn bod y ddarpariaeth o Fannau Agored Cyhoeddus arfaethedig yn dderbyniol yn unol â LU24.

Priffyrdd

Mae Polisi DM03 yn cynghori y bydd y datblygiad wedi'i leoli er mwyn lleihau'r angen i deithio ac mae'n nodi y dylid darparu manau parcio fel rhan o gynigion datblygu yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol Safonau Parcio Ceredigion.

Mae Polisi DM04 yn tynnu sylw ymgeiswyr at yr angen i wneud y mwyafrif o'r cyfleoedd ar gyfer cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Dylid cyflawni hyn trwy ddarparu cysylltiadau â llwybrau presennol o ddatblygiadau newydd, adfer seilwaith nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach lle bydd yn gwasanaethu'r datblygiad newydd mewn ffordd gynaliadwy, a darparu iechyd ac ansawdd bywyd gwell trwy ymgorffori nodweddion yn y datblygiad sy'n manteisio ar gysylltiadau â dulliau teithio heb gar.

Nid yw'r Awdurdod Priffyrdd Lleol wedi mynegi unrhyw wrthwynebiad yn ddarostyngedig i amodau sy'n ymwneud â chyflwyno Cynllun Safle Adeiladu a Rheoli Traffig, sicrhau Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, a ffurfio ffordd ystâd i safonau mabwysiadwy gyda ddarpariaeth briodol ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr yn cael ei ddarparu o fewn amserlen briodol. Mae mân newidiadau wedi cael eu cytuno yn ystod y cais i sicrhau bod llwybrau i gerddwyr trwy'r safle yn ymarferol ac yn gwneud y defnydd gorau o'r llwybrau presennol trwy'r safle, sef trwy wneud gwelliannau i'r hawl tramwy cyhoeddus sy'n torri ar draws y safle.

Ystyriwch y gellir rhoi sylw i ofynion yr Awdurdod Priffyrdd Lleol trwy gael amodau cynllunio wedi'u geirio'n ddigonol.

Draenio Dŵr Wyneb a Dŵr Budr

O ran dŵr wyneb, mae adroddiad strategaeth ddraenio wedi'i ddarparu i nodi y bydd y datblygiad yn cyfathrebu â'r rhwydwaith draenio dŵr wyneb presennol gyda systemau storio gwanhau i'w ddarparu cyn gollwng rheoledig trwy ardaloedd bio-gadw, pafin athraidd a systemau storio gwanhau geo-gellol.

Bydd angen cymeradwyaeth SDCau ar gyfer y datblygiad cyn dechrau unrhyw waith ar y safle, gan Gorff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy Ceredigion. Bydd gwybodaeth yn cael ei chynnwys ar unrhyw ganiatâd i gynghori ac felly gellir ymdrin yn ddigonol â phob mater sy'n ymwneud â dŵr wyneb trwy'r broses Corff Cymeradwyo Draenio.

O ran dŵr budr, nid yw Dŵr Cymru Welsh Water wedi gwrthwynebu mewn egwyddor i'r datblygiad yn gollwng i'r garthffos gyhoeddus, yn amodol ar ganiatadau priodol. Mae Dŵr Cymru hefyd yn cadarnhau bod capasiti ar gael ar hyn o bryd yn y cyflenwad dŵr i ddarparu ar gyfer y datblygiad.

Bydd nodiadau cynghori DCWW yn rhoi gwybodaeth am unrhyw ganiatâd.

Safleoedd Gwarchoddedig

Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i gynnal yn unol â Rheoliad 63 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 mewn perthynas ag ACAu Bae Ceredigion a Gorllewin Cymru Forol a SoDdGA Aberarth-Carreg Wylan, gydag Asesiad Priodol llawn yn ofynnol ar gyfer y cyntaf.

Yn unol â chynghor Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), daw'r Ecolegydd Cynllunio i'r casgliad, yn amodol ar gyflwyno Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu wedi'i sicrhau gan amod, ei bod yn annhebygol y bydd effeithiau niweidiol arwyddocaol ar yr ACAu.

Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd

Mae Cynllun Tirweddu, Asesiad Risg Biddiogelwch, Datganiad Seilwaith Gwyrdd, Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol, Cynllun Lliniaru Ymlusgiaid, Arolwg Coed, ac Adroddiad Geotechnegol a Geoamgylcheddol yn cyd-fynd â'r cais.

Mae'r dirwedd nodedig bresennol a'r nodweddion Seilwaith Gwyrdd yn cynnwys y llethrau coediog sy'n rhannu'r manau parhau, y coetir i'r

de ac ardal sylweddol o brysgwydd i'r gorllewin o'r llwyfandir uchaf. Mae'r nodweddion hyn yn rhan bwysig o'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd ac ecolegol presennol, ac maent hefyd yn darparu sgrinio gwerthfawr i'r datblygiad o olygfeydd allweddol. Bydd y mwyafrif o'r nodweddion presennol hyn yn cael eu cadw.

Bydd y safle'n cael ei wella trwy blannu coed brodorol newydd yn ogystal â gwrychoedd brodorol, plannu strwythurau brodorol, llwyni newydd, planhigion sy'n adnabyddus am eu gwerth i fywyd gwyllt, cymysgeddau o blanhigion gwlyptir a mathau eraill o gynefin.

Mae'r Ecolegydd Cynllunio yn fodlon â'r wybodaeth a ddarparwyd ac nid yw'n gwrthwynebu yn ddarostyngedig i amodau yn ymwneud â sicrhau'r mesurau a amlinellir yn y dogfennau a gyflwynwyd.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Mae Swyddog Tir Comin a Mynediad y sir wedi nodi'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n croeso ar draws y safle, sef Llwybr Troed 49/9, ac yn rhoi cyngor i'r datblygwr y dylai aros ar agor ac ar gael bob amser oni bai bod Gorchymyn Rheoleiddio Traffig yn cael ei gymeradwyo.

Cynigir cadw'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus trwy'r safle a'i ffurfioli trwy gyswllt llwybr troed 2m o led i droedffyrdd newydd ym mynediad y safle yn rhedeg wedi hynny tua'r de i bwynt mynediad presennol ar ffin y safle.

Bydd sylwadau'r Swyddog yn cael eu cynnwys fel gwybodaeth ar unrhyw ganiatâd.

Ymateb i wrthwynebiadau

Sylwadau'r ACLI mewn print trwm:

- Effaith ar dwristiaeth a'r economi leol trwy golli darpariaeth parcio
 - **Wedi cael sylw o dan 'Egwyddor Datblygu'**
- Pryderon llifogydd dŵr wyneb
 - **Wedi cael sylw o dan 'Draenio Dŵr Wyneb a Dŵr Budr'**
- Effaith ar rywogaethau a warchodir a gwyrddni ar y safle
 - **Wedi cael sylw o dan 'Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd'**
- Llygredd yn ystod y gwaith adeiladu a chael ei ollwng i Fae Ceredigion
 - **Wedi cael sylw 'Safleoedd Gwarchoddedig'**
- Dyluniad anghydnaws â'r ardal leol
 - **Wedi cael sylw o dan 'Dylunio, Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol'**
- Effaith ar wasanaethau lleol (ysgolion, meddygon)
 - **Wedi cael sylw o dan 'Egwyddor Datblygu'**
- Nid oes angen tai cymdeithasol ac nid yw'n briodol yng Ngheinewydd a dim angen llety 1 ystafell wely yng Ngheinewydd
 - **Wedi cael sylw o dan 'Cymysgedd a Dwysedd Tai'**
- Ymholiadau ynghylch pwy fydd yn byw yn yr anheddau
 - **Byddant yn cael eu meddiannu gan unigolion cymwys sydd angen tai fforddiadwy**
- Anghydfod rhwng cymdogion ynghylch hawliau tramwy i dir cyfagos
 - **Mater sifil yw hwn**
- Mae llawer o eiddo heb eu gwerthu yng Ngheinewydd
 - **Mae'r eiddo hyn yn eiddo gwerth uchel yn bennaf ac ni allant mynd i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy**

ARGYMHELLIAD:

Cymeradwyo yn ddarostyngedig i amodau

MAE'R CAIS HWN AR GYFER DATBLYGIAD MAWR AC FELLY CYFEIRIO'R CAIS AT Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU YN UNOL Â CHYNLLUN DIRPRWYO'R CYNGOR

Rhif y Cais / Application Reference	A240772
Derbyniwyd / Received	22-10-2024
Y Bwriad / Proposal	Full planning application for the proposed resurfacing and reconfiguration of existing car park together with residential development and associated works
Lleoliad Safle / Site Location	Land At Central Car Park, New Quay, SA45 9QQ
Math o Gais / Application Type	Full Planning
